University of South Wales
Prifysgol De Cymru

## GWEITHDREFN AR GYFER CAM 1: CAMYMDDWYN MYFYRWYR LLAI DIFRIFOL

1. Mae camymddwyn sy'n cael ei ddosbarthu fel camymddwyn llai difrifol yn weithred neu ymddygiad nad yw'n ddigon difrifol i gael ei ystyried yn gamymddwyn mawr o dan y Weithdrefn hon. Mae rhai enghreifftiau o gamymddwyn llai difrifol wedi'u darparu isod. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr, a gallent gynnwys gweithredoedd a gyflawnir gan ddefnyddio technoleg, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag yn bersonol:

    - Ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n peri gofid neu drallod i unigolion eraill.
    - Difrod i eiddo heb fwriad maleisus.
    - Methu â chydymffurfio â chais rhesymol unigolyn awdurdodedig.
    - Gweithred/esgeulusiad a achosodd neu a allai fod wedi achosi pryder iechyd a diogelwch ar safle'r Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft, ysmygu sigaréts mewn ardaloedd nad ydynt wedi'u dynodi).

2. Fe'ch gelwir i gyfarfod gyda Deon y Gyfadran berthnasol (neu eu henwebeion priodol) i drafod yr honiad. Gall aelod o'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr fod yn bresennol fel y Swyddog Achos (ond ni fydd yn gwneud penderfyniadau). Os ydych chi'n brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd cynrychiolydd y cyflogwr hefyd yn cael gwahoddiad i fynychu fel arsylwr.

3. Gall Deon y Gyfadran berthnasol (neu eu henwebai priodol) roi cosbau, os yw'n briodol, fel y nodir yn adrannau 2.31 i 2.38 y Rheoliadau Camymddwyn Anacademaidd.

4. Gall Deon y Gyfadran berthnasol (neu eu henwebeion priodol) ofyn i'ch achos gael ei gyfeirio am ymchwiliad i'r mater a godwyd, os bernir ei fod yn angenrheidiol.

5. Bydd y canlyniad yn cael ei roi i chi ymhen 5 diwrnod gwaith o'r cyfarfod. Os ydych chi'n brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn rhoi gwybod i'ch cyflogwr.

6. Os rhoddir cosb, bydd nodyn am ganlyniad y cyfarfod yn cael ei gadw ar eich cofnod ond bydd yn cael ei ddileu pan fyddwch yn gadael y sefydliad os nad oes achosion pellach o gamymddwyn.

7. Os nad ydych yn fodlon â'r canlyniad, gallwch gyflwyno cais am adolygiad yn amodol ar fodloni seiliau penodol fel y nodir yn y Weithdrefn ar gyfer Cyflwyno Cais am Adolygiad.

8. Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gosb a roddwyd yng Ngham 1, gall Deon y Gyfadran (neu enwebai) roi cosb fwy difrifol neu gellir cyfeirio'r achos at Gam 2, a fydd yn cynnwys ymchwiliad a/neu wrandawiad gan y Pwyllgor perthnasol.

Rheoliadau a Gweithdrefnau Cysylltiedig
Rheoliadau Camymddwyn anacademaidd
Gweithdrefn ar gyfer Ymchwiliadau Disgyblu
Gweithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer
Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Adolygiad
Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Gynrychiolaeth Gyfreithiol
Canllawiau ar gyfer Cymhwyso Cosbau
Rheoliadau a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol